# Y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau

## Cofnodion EIN(2) 03-06

### Dyddiad y cyfarfod: 7 Mehefin 2006
### Amser y cyfarfod: 9.00 – 12.40
### Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd, Bae Caerdydd

#### Aelodau Cynulliad yn Bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Christine Gwyther (Cadeirydd) | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Leighton Andrews | Rhondda |
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Andrew Davies (y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau) | Gorllewin Abertawe |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Alun Ffred Jones | Caernarfon |
| Carl Sargeant | Alun a Glannau Dyfrdwy |

#### Swyddogion yn Bresennol

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Gareth Hall | Cyfarwyddwr yr Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau |
| Robin Shaw | Cyfarwyddwr Trafnidiaeth Cymru |

| | |
|---|---|
| Jonathan Price<br><br>Julian Revell<br><br>Patrick Lewis<br><br>Tracey Burke<br><br>Dr Robin Fears | Y Prif Gynghorydd Economaidd<br><br>Ystadegau Economaidd a'r Farchnad Lafur<br><br>Cyfarwyddwr Rhaglen Blaenau'r Cymoedd<br><br>Pennaeth Strategaeth ac Adolygu<br><br>Cynghorydd Arbenigol |

**Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad**

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Claire Morris<br>Chris Reading | Clerc<br>Clerc |
| Leanne Hatcher | Dirprwy Glerc |
| Gwyn Griffiths | Cynghorydd Cyfreithiol Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad |
| Ben Stokes | Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriad gan Kirsty Williams. Roedd Eleanor Burnham yn dirprwyo ar ei rhan.

1.2 Roedd Leighton Andrews yn dymuno datgan buddiant gan ddweud mai ei wraig yw Cyfarwyddwr BT Cymru.

1.3 Mae cofnod gair-am-air o'r cyfarfod ar gael.

**Eitem 2: Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol**

Papur: EIN(2) 01-06 - Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Mai
Papur: EIN(2) 03-06 - Camau heb eu Cymryd

2.1 Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Mai yn gywir.

**Eitem 3: Adroddiad y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau**

Papur: EIN(2) 03-06 (p.1)

EIN(2) 03-06 (p.2)
EIN(2) 03-06 (p.3)

3.1 Cyflwynodd y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau ei adroddiad.

Camau i'w Cymryd:

- Bydd bwletin manwl ar anweithgarwch economaidd yn cael ei baratoi yn hwyrach yn y flwyddyn, a bydd y Pwyllgor yn derbyn copi pan fydd y bwletin ar gael.
- Darparu dadansoddiad o nifer y busnesau bach a chanolig, o'r 10,000 a grëwyd o ganlyniad i arian amcan 1, sy'n bodoli o hyd.
- Cytunodd y Gweinidog i ysgrifennu at Carl Sargeant, gyda chopi at aelodau eraill y Pwyllgor ynghylch y pwyntiau a godwyd am ffyrdd yr A494 a'r A55 yn y Gogledd. Bydd yn canolbwyntio'n benodol ar (i) cam 2 o ddatblygiad ffordd yr A494 a manylion unrhyw ffigurau diweddar sydd ar gael ar gyfer cyfrifiadau traffig ffordd; a (ii) cam 3 o'r gwelliannau i ffordd yr A55, ac a ymgynghorwyd â'r bobl hynny y gallai'r cynllun effeithio ar eu cartrefi.
- Darparu nodyn ysgrifenedig ar amserlen a chylch gorchwyl adolygiad Hybu Cig Cymru ar gyflwr presennol lladd-dai yng Nghymru.
- Darparu gwybodaeth am bwy y bu Nypro Wrexham Limited yn darparu gwasanaeth iddynt a'r rhesymau dros golli'r contract.

## Eitem 4: Strategaeth Blaenau'r Cymoedd

Papur: EIN(2) 03-06 (p.4)

4.1 Derbyniodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am Strategaeth Blaenau'r Cymoedd.

## Eitem 5: Blaenoriaethau Cyllidebol

Papur: EIN(2) 03-06 (p.5)

5.1 Ystyriodd y Pwyllgor ei flaenoriaethau o ran y gyllideb Menter, Arloesi a Rhwydweithiau 2007-08.

Camau i'w Cymryd:

- Darparu dadansoddiad o'r galw am gyflymder ffeibr i barciau busnes.
- Gofyn i'r Adran Gyllid Ganolog a yw'n bwriadu newid y gyllideb i gynnwys arian cyfatebol dangosol.
- Dosbarthu copïau o'r strategaeth, y polisi a'r canllawiau a ddefnyddir i ymgorffori datblygu cynaliadwy yng ngweithgareddau'r Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau.
- Esbonio'r rhesymau dros ehangu'r llinell wariant yn y gyllideb ar gyfer gwella gwasanaethau rheilffyrdd ac awyr a sut y gellir cysoni hyn gyda'r gostyngiadau yn y cyllidebau ar gyfer gwella'r broses o integreiddio a darparu trafnidiaeth leol a chefnogi cerdded a seiclo.
- Y Clerc i lunio ymateb a'i ddosbarthu i Aelodau.

### Eitem 6: Adolygiad o'r Adran Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth – y wybodaeth ddiweddaraf, argymhellion a'r camau nesaf

Papur: EIN(2) 03-06 (p.6)

6.1 Derbyniodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad ar gyfer systemau adrodd ar berfformiad.

Cam i'w Gymryd:

- Darparu rhagor o wybodaeth am y gwaith ymchwil a gynhelir i edrych ar y broses o fonitro perfformiad cleientiaid, gan ystyried Gwerth Ychwanegol Crynswth a'r broses o olrhain enillion ar fuddsoddiad yn bennaf.

### Eitem 7: Adolygiad o'r Polisi Gwyddoniaeth - Ystyried yr Adroddiad Drafft

Papur: EIN(2) 01-06 (p.7)

7.1 Yn unol â Rheol Sefydlog 8.24, penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r eitem hon, tra'i fod yn ystyried argymhellion ar gyfer ei adolygiad o'r Polisi Gwyddoniaeth.

### Gwasanaeth y Pwyllgorau